

Medrwn Môn

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol



12. Newid hinsawdd

12.10 Newid hinsawdd a thrafnidiaeth

Mae symudedd personol a chludo nwyddau yn rhan anhepgor o fywyd pob dydd ac mae'n gyfrifol am 16.2% o'r holl allyriadau CO₂ yng Nghymru. Trafnidiaeth ffordd sy'n cyfrannu fwyaf at allyriadau trafndiaeth, gyda theithio personol â char yn gyfrifol am 63% o hyn.

Mae dwysedd isel poblogaeth Cymru, amrywiadau ei thirwedd, a phoblogaethau tenau cefn gwlad a'r arfordir yn her wrth geisio darparu gwasanaethau trafndiaeth gyhoeddus hyfyw, aml ac uniongyrchol, ac mae hynny'n arwain at ddibyniaeth ar geir. Mae cludo nwyddau'n cyfrif am 33.4% o allyriadau trafndiaeth Cymru. 39

Am gyfeiriadau a gwybodaeth bellach am drafndiaeth ac argymhellion y Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i roi sylw i allyriadau carbon, gweler Rhanbarthau Carbon Isel.

www.sd-commission.org.uk/data/files/publications/SDC_LowCarbonRegions_report_web.pdf

Anghyfiawnder trafndiaeth

Bydd mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn golygu y bydd yn rhaid chwyldroi trafndiaeth yn y DU. Bydd yn rhaid i gymdeithas ôl-garbon ddibynnu llawer mwy ar drafndiaeth gyhoeddus, cerdded a seiclo ac ni fydd gan y car le mor flaenllaw wedyn yn ein trefi a'n pentrefi. Bydd datrys y broblem yn gyfle i annog meddwl cydlynus rhwng mudiadau cyfiawnder cymdeithasol ac amgylcheddol gan fod modd i seilwaith trafndiaeth gyhoeddus, llwybrau beiciau a llwybrau troed hybu cydraddoldeb mewn cymdeithas a helpu'r sawl sy'n byw mewn tlogdi. Mae buddsoddi mewn trafndiaeth gyhoeddus yn gyfle i sbarduno cylchoedd rhinweddol, gan gael effaith bositif ar iechyd, cymunedau a'r amgylchedd.

Mae miliynau o bobl yn y DU heddiw yn profi anghyfiawnder trafndiaeth. Mae'r anghyfiawnderau'n cynnwys mynediad anghyfartal at waith a chyfleoedd gwaith; brwydr am arian; llai o gyfle i fod yn weithgar a ffit; ac amlygiad anghymesur at lygredd, peryglon y ffordd a sŵn.

Ymhlith yr 20 y cant o aelwydydd tlotaf, mae'r rhai sy'n berchen ar gar yn gwario bron i chwarter eu hincwm ar ei redeg. Mae hyn yn cyfrif fel tlogdi trafndiaeth er nad oes diffiniad cydnabyddedig o'r cyflwr hwn ar hyn o bryd.

Am ragor o wybodaeth am gyfiawnder trafndiaeth a newid yn yr hinsawdd, gweler dogfen Sustrans:

Towards Transport Justice : Transport and Social Justice in an Oil-Scarce Future

www.sustrans.org.uk/assets/files/Info%20sheets/towards_transport_justice_april08.pdf

Transport and social justice – Taflen Wybodaeth FF45

www.sustrans.org.uk/assets/files/Info%20sheets/ff45_biling.pdf

Dewisiadau Teithio Doethach

Mae Atal Anrhefn Hinsawdd Cymru yn cynnig dull i roi sylw i'r angen i newid ein seilwaith trafndiaeth drwy 'Ddewisiadau Teithio Doethach' a rhinweddau'r dull hwnnw.

Am ragor o wybodaeth gweler Cutting Carbon: Creating Jobs

http://issuu.com/scccymru/docs/scc_cutting_carbon_report_final?viewMode=magazine

Cynhwysiant Anabledd

I lawer o bobl anabl a phobl hŷn mae llawer o'n strydoedd a'n trafndiaeth gyhoeddus y tu hwnt i'w cyrraedd, a hynny'n aml am fod manau cyhoeddus a gorsafoedd a cherbydau trafndiaeth gyhoeddus wedi'u dylunio mor wael. Mae angen i unrhyw newid i'n seilwaith trafndiaeth gadw'r materion hyn mewn cof. Am ragor o wybodaeth am broblemau sy'n wynebu pobl anabl a thrafnidiaeth, gweler

www.dft.gov.uk/topics/access


www.disabilityalliance.org/surface.htm

Bydd angen ystyried anghenion y bobl sy'n dibynnu ar geir ac a fydd yr un mor ddibynnol arnynt yn ystod neu ar ôl y newid i'r seilwaith, oherwydd diffyg mynediad at dtrafnidiaeth neu anallu i gerdded neu seiclo, megis pobl anabl neu bobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig, mewn unrhyw bolisiau er mwyn sicrhau na chânt eu heffeithio'n anghymesur gan y newid i dtrafnidiaeth carbon isel.

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth yn y daflen hon wedi'i bwriadu fel arweiniad yn unig. Ni ddylid ei defnyddio ar draul cyngor proffesiynol ac ni allwn gymryd unrhyw gyfrifoldeb am golledion a all ddeillio o ganlyniad i unrhyw unigolyn sy'n gweithredu neu'n peidio gweithredu arni.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

<p>Medrwn Môn <i>Neuadd y Dref, Sgwâr Bulkeley, Llangefni, Sir Ynys Môn, LL77 7LR</i> Elusen Gofrestredig: 1088828</p> <p>Ffôn: 01248 724944 post@medrwnmon.org Ffacs: 01248 750149 www.medrwnmon.org</p>	 <p>WcVA CgGC</p>
<p>Cynhyrchwyd gan CGGC, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli Wedi ei ddiweddarau: 16/03/2012</p>	<p>Ffôn: 0300 111 0124 www.wcva.cymru</p>